

COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

legal services
COMMISSION

COMISIWN GWASANAETHAU CYFREITHIOL

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

FERSIWN YMGYNGHORI

Awst 2005

(yn y fersiwn terfynol)

Datganiad Cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith

Logo Bwrdd yr Iaith

Ni chaiff y Cynllun hwn ei newid heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Rhagair

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) yn helpu pobl i dderbyn gwasanaethau cyfreithiol a chynghori a gyllidir yn gyhoeddus ledled Lloegr a Chymru. Mae gan ein gwaith ffocws neilltuol ar sicrhau mynediad i gyfiawnder i fregus a rhai sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol. Er nad yw'r Ddeddf Cyfiawnder i Wasanaethau 1999 a sefydlodd yr LSC yn gwahaniaethu rhwng sut y cyflawnwn ein swyddogaethau yn Lloegr a Chymru, yr ydym yn cydnabod fod gwahanol anghenion a gwahaniaethau deddfwriaethol a pholisi cynyddol rhwng y ddwy wlad. Mae hyn yn dylanwadu ar ein swyddogaethau polisi, dylunio a chyflenwi yng Nghymru.

Mae Papur Ymgynghori Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn amlinellu ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Yr ydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Buom yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth ddatblygu'r Papur Ymgynghori hwn. Yr ydym yn awr yn gofyn am sylwadau budd-ddeiliaid a phartneriaid ar yr hyn a gynigiwn gyda golwg ar gyhoeddi'r cynllun cymeradwy yn 2006.



Clare Dodgson

Prif Weithredydd, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Cyflwyniad

Pwy ydym, ein trefniadaeth a'n gweithgareddau

1. Sefydlwyd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ym mis Ebrill 2000. Y Comisiwn yw'r corff sy'n olynu'r Bwrdd Cymorth Cyfreithiol blaenorol. Yr ydym yn gorff cyhoeddus anadrannol, yn atebol i'r Adran Materion Cyfansoddiadol.
2. Caiff dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol eu nodi yn Neddff Mynediad i Gyfiawnder 1999. Ein pwrpas yw helpu pobl i gael gwasanaethau cyfreithiol sy'n mynd i'r afael ag anghenion real. Dyma'n cyfraniad ni at wneud y system cyfiawnder yn deg, hygyrch a fforddiadwy i bawb, ac ar gyfer rhwystro allgáu cymdeithasol. Yr ydym yn gyfrifol am sefydlu, cynnal a datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol. Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gwario tua £2 biliwn y flwyddyn ar wasanaethau cyfreithiol yn Lloegr a Chymru - tua £70 miliwn y flwyddyn yng Nghymru.
3. Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu gwasanaethau yn Lloegr a Chymru. Nid yw gweinyddiaeth cymorth cyfreithiol yn swyddogaeth a ddatganolwyd.

Egwyddorion cyffredinol

Polisiâu a mentrau newydd

4. Wrth ddatblygu polisiâu a gweithdrefnau newydd, neu ystyried effaith polisiâu a mentrau'r Llywodraeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'w canlyniadau ar ddefnydd yr iaith Gymraeg. Bydd ein polisiâu a mentrau yn gyson â'r mesurau yn y Cynllun hwn.

Safonau gwasanaeth

5. Yr ydym yn ymrwymedig i gyflwyno gwasanaeth yr un mor safonol yn Gymraeg ag yn Saesneg fel a ddiffinnir yn y cynllun hwn. Mae ein targedau perfformiad a safonau gwasanaeth yn gweithredu yn yr un modd i wasanaethau a ddarperir yn y ddwy iaith. Anelwn am gysondeb yn safon gwasanaethau yn ein holl swyddfeydd, p'un ai yn Gymraeg neu yn Saesneg y cyflenwir y gwasanaethau hynny.

Cyfrifoldeb am y Cynllun ac am ei gyflenwi

6. Prif Weithredydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Cynllun hwn.

Mesurau ar gyfer delio â'r cyhoedd yng Nghymru

Cyfeirir yr adran hon at ddefnyddwyr gwasanaethau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru

Ffurflenni

7. Oherwydd eich bod yn cyflwyno ceisiadau am gymorth cyfreithiol, a ffurflenni eraill, drwy eich cyfreithiwr, darparwn ein ffurflenni i gyfreithwyr a chynghorwyr cyfreithiol yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Cânt eu cyflenwi ar ddisg, drwy ein gwefan neu mewn copi caled yn ein Pecyn Ffurflenni. Yr ydym wedi mabwysiadu rhaglen i ddarparu ein ffurflenni yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg fel y gall eich cyfreithiwr neu gynghorydd cyfreithiol ddewis yr un mwyaf addas.
8. Caiff y ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog eu cynhyrchu i ddyluniad tebyg a'r un safonau a'r fersiynau Saesneg.

Gohebiaeth

9. Croesawn llythyrau Cymraeg. Anfonir ateb yn Gymraeg. Mae ein hamser targed a safonau ansawdd ar gyfer ateb llythyrau yn Gymraeg yn union yr un fath ag ar gyfer ateb i llythyrau yn Saesneg.
10. Wrth gychwyn gohebiaeth yng Nghymru, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg at aelodau o'r cyhoedd y gwyddom y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg, os na wneir cais fel arall. Bydd unrhyw gylchlythyrau a gyhoeddwn i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
11. Bydd gohebiaeth electronig yn dilyn yr un egwyddorion ag uchod.

Galwadau ffôn

12. Croesewir galwadau ffôn yn Gymraeg i swyddfa Caerdydd.
13. Atebir y ffôn yn ein swyddfa yng Nghaerdydd gyda chyfarchiad dwyieithog; atebir y ffôn yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru yn Saesneg yn unig.

14. Os dymunwch sgwrsio yn Gymraeg ond na all y person sy'n ateb y galwad wneud hynny, lle'n bosibl trosglwyddir eich galwad i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes person sy'n siarad Cymraeg ar gael, byddwn yn cynnig dewis o berson sy'n siarad Cymraeg i'ch ffonio'n ôl neu barhau â'r galwad yn Saesneg.
15. Y tu allan i oriau busnes, bydd y neges ar y peiriant ateb yn ein swyddfa yng Nghaerdydd yn ddwyieithog; y tu allan i Gymru, bydd yn Saesneg.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

16. Pan drefnwn gyfarfodydd yng Nghymru y gall aelodau'r cyhoedd eu mynychu, mae croeso i chi siarad Cymraeg neu Saesneg. Bydd y gwahoddiadau a'r hysbysiadau yn rhoi cyhoedduswydd i'r digwyddiad yn ddwyieithog a byddwn yn eich gwahodd i'n hysbysu ymlaen llaw os dymunwch ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu, a fydd ar y pryd yn gyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

Galwyr personol

17. Caiff y rhan fwyaf o'n busnes ei gynnal drwy ohebiaeth neu dros y ffôn, ond yr ydym yn derbyn nifer fach o alwyr personol. Mae croeso i rai sy'n galw yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ofyn am weld aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael rhoddir dewis i chi i barhau'r sgwrs yn Saesneg neu drefnu apwyntiad pan fedrwnch drafod eich ymholiad gydag aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg neu gyda chyfieithydd yn bresennol.
18. Os ydych yn mynychu ein swyddfa yng Nghaerdydd er mwyn cyflwyno apêl yn erbyn un o'n penderfyniadau (er enghraifft, i wrthod cymorth cyfreithiol yn eich achos neu i ddiddymu eich tystysgrif cymorth cyfreithol), mae croeso i chi gyflwyno eich apêl yn Gymraeg neu yn Saesneg. Cyn y gwrandawriad apêl gofynnir i chi (neu'ch cynrychiolydd cyfreithol) drwy ffurflen ymholiad os dymunwch siarad Cymraeg yn y gwrandawriad. Pan wneir cais o'r fath byddwn yn ymdrechu i ddarparu pwyllgor apêl dwyieithog. Darperir cyfieithydd os nad yw'n bosibl darparu pwyllgor apêl dwyieithog.

19. Byddwn yn paratoi nodyn cyngor mewnol i'n holl staff yn esbonio'r hyn sydd angen iddynt wneud i gydymffurfio gyda mesurau'r Cynllun hwn yn eu trafodion gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

Hunaniaeth gorfforaethol

20. Mae gennym fersiwn Gymraeg o'n logo. Bydd ein swyddfa yng Nghaerdydd yn defnyddio deunydd papur dwyieithog wrth ddelio gyda'r cyhoedd yng Nghymru.
21. Mae arwyddion cyhoeddus y mae gennym gyfrifoldeb amdanynt yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ac yn ei ffiniau a'r arwyddion a gaiff eu harddangos yn ein cynadleddau ac ati yn ddwyieithog.
22. Mae'r Dystysgrif Nod Ansawdd a ddyfarnwn i sefydliadau gyda sicrwydd ansawdd a'r arwyddion y medrant eu harddangos ar gael yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

Cyhoeddiadau

23. Caiff yr holl ddeunyddiau a anelir at y cyhoedd yng Nghymru eu cynhyrchu yn ddwyieithog, gyda thybiaeth o blaid dogfennau unigol gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ynghyd mewn un ddogfen. Fodd bynnag, os bydd maint neu gymhlethdod y ddogfen yn golygu bod angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yna bydd y ddau fersiwn yr un mor hawdd i'w cael a nodir yn y ddau fersiwn fod y ddogfen hefyd ar gael yn yr iaith arall. Bydd gan ddeunyddiau a fwriedir ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau flaenoriaeth uwch ar gyfer eu cynhyrchu'n ddwyieithog na'n cyhoeddiadau polisi a fwriedir ar gyfer cynulleidfa lai.
24. Nid yw'r Cynllun yn cwmpasu dogfennau technegol, contractau, arweiniad technegol, gwahoddiadau i dendro a chyhoeddiadau tebyg lle cyfyngir y cylchrediad i'r gymuned dechnegol e.e. cyfreithwyr, cynghorwyr cyfreithiol a'u cyrff cynrychioliadol.

Gwefannau Rhyngrwyd

25. Mae gan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol bedair gwefan ar hyn o bryd - am y Comisiwn, Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol, a gynlluniwyd i roi cyngor i'r cyhoedd, Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol a'r safle Recriwtio. Bydd gwefan Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd yr holl ddeunydd ar y gwefannau eraill sy'n tarddu o swyddfa Caerdydd ac a anelir at y cyhoedd hefyd ar gael yn ddwyieithog. Byddwn, dros gyfnod, yn sicrhau fod prif adrannau'r wefan sy'n debygol o gael eu defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Hysbysiadau i'r wasg, hysbysebu a chyhoeddusrwydd

26. Byddwn yn cyhoeddi hysbysiadau i'r wasg yn ddwyieithog i'r wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru lle mae'r deunydd pwnc o ddiddordeb neilltuol i'r cyhoedd yng Nghymru.
27. Byddwn yn cyhoeddi hysbysebion dwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg gyda chylchrediad lleol yng Nghymru. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.
28. Caiff ein holl ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a gynhelir yng Nghymru eu cyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yng Nghymru, mae arddangosiadau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.

Gwasanaethau a gyflenwir ar ran yr LSC gan drydydd parti

29. Pan ymrwymwn i gytundeb gyda chorff cyhoeddus arall i gyflenwi gwasanaeth ar y cyd i'r cyhoedd byddwn yn sicrhau fod y gwasanaeth a ddarperir yn gyson gyda thelerau'r Cynllun hwn.
30. Nid yw mwyafrif helaeth y sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol yn dod yn uniongyrchol o fewn cwmpas Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fe fyddwn serch hynny yn annog sefydliadau a gyllidir i fabwysiadu ethos y Ddeddf lle mae hynny'n briodol ac yn rhesymol. Lle mae sefydliad a gyllidir yn dod o fewn

cwmpas y Ddeddf, bydd sefydliad o'r fath yn darparu ei wasanaethau yn unol â'i Gynllun ei hun.

Strategaeth recriwtio a staffio

31. Byddwn yn cyflogi nifer ddigonol o staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y cynllun hwn.

32. Fel cyflogydd Cyfle Cyfartal, ein polisi yw recriwtio'r ymgeiswyr mwyaf addas i swyddi gwag a'u hyfforddi yn y sgiliau neilltuol y maent eu hangen i weithredu'n effeithlon. Nid oes unrhyw swyddi unigol y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar eu cyfer ond, ar draws ein gwasanaethau ledled Cymru, yr ydym yn cydnabod fod angen i ni sicrhau nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth boddhaol. I fynd â hyn ymlaen yn deg ac yn wrthrychol, byddwn yn mabwysiadu ac yn gweithredu strategaeth sgiliau ieithyddol. Bydd hyn yn dynodi, a chadw dan adolygiad, lle'r ydym angen sgiliau dwyieithog, lle mae staff yn meddu ar sgiliau o'r fath eisoes a lle mae angen i ni sicrhau fod sgiliau o'r fath yn cael eu datblygu fel y cwyd cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth addas.

33. Yr ydym yn annog ein staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg a, lle mae hyn yn ateb angen busnes a ddynodwyd, byddwn yn talu am gost eu hyfforddiant.

34. Bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer staff ac aelodau Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithol yng Nghymru yn ddwyieithog. Dilynir yr ymrwymiad hwn hyd yn oed os nad yw'r swydd i'w llenwi yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ffactor ddymunol neu hanfodol. Bydd hysbysebion ym mhrif bapurau newydd y Deyrnas Gyfunol yn Saesneg fel arfer.

Gweithredu, monitro a chyhoeddi'r Cynllun hwn

35. Rhoddir amserlen ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun hwn yn Atodiad 1.
36. Caiff y Cynllun ei fonitro ar sail barhaol a chaiff Adroddiad penodol ar ein perfformiad yn gweithredu a chyflenwi'r Cynllun ei gynhyrchu'n flynyddol. Bydd ar gael i'r cyhoedd ac anfonir copi ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
37. Bydd cwynion gan aelodau'r cyhoedd am fethiant i gydymffurfio gyda'r Cynllun hwn yn ffurfio rhan bwysig o'r broses monitro. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn am ein gwasanaethau Cymraeg at y Rheolydd Ansawdd, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Tŷ Marland, Sgwâr Canolog, Caerdydd CF10 1PF neu drwy ein ffonio yn 029 2064 7100. Caiff unrhyw gwynion o'r fath eu trafod o fewn yr un cyfnod a safonau ansawdd â'n gweithdrefn gwynion arferol. Medrwy godi'r mater gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg os ydych yn anfodlon gyda'n hymateb.
38. Croesewir awgrymiadau ar gyfer gwella ein gwasanaethau yn Gymraeg a chânt eu hystyried fel rhan o'n proses fonitro. Dylid eu hanfon i'r un cyfeiriad ag ym mharagraff 37 uchod.
39. Caiff y Cynllun hwn, *unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo a'i fabwysiadu*, ei hysbysebu drwy ddodi posteri dwyieithog yn rhannau cyhoeddus ein swyddfa yng Nghaerdydd. Bydd copïau o'r Cynllun hefyd ar gael fel dogfen ddwyieithog ddi-dâl gan ein swyddfa yng Nghaerdydd. Byddwn hefyd yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi taflen ddwyieithog sy'n crynhoi elfennau allweddol y Cynllun ac yn esbonio sut y medrir cael copïau o'r Cynllun llawn.

Atodiad 1 – Amserlen

Camau Gweithredu	Amserlen
<p>Polisiau a Mentrau Newydd</p> <p>1. Rhoddir statws cyfartal i'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu unrhyw bolisiau neu weithdrefnau newydd neu wrth ystyried polisiau a mentrau'r llywodraeth.</p>	<p>Cyflwynir y ddarpariaeth hon mewn cyfnodau yn ystod oes y cynllun hwn, gan ddechrau gyda'r polisiau a mentrau hynny sydd â mwyaf o effaith ar bobl yng Nghymru.</p>
<p>Safonau Gwasanaeth</p> <p>2. Gweithredu safonau perfformiad a safonau gwasanaeth yn gyfartal p'un ai yn Gymraeg neu yn Saesneg y cyflenwir gwasanaeth.</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.</p>
<p>Mesurau ar gyfer delio gyda'r cyhoedd yng Nghymru</p> <p>3. Ffurflenni– pob ffurflen ar gael ar ddisg, gwefan a chopi caled yn ein Pecyn Ffurflenni.</p>	<p>O fewn 6 mis o fabwysiadu'r cynllun byddwn yn adolygu'r prif ffurflenni a ddefnyddir gan y cyhoedd ac yn paratoi cynllun gweithredu realistig.</p>
<p>Gohebiaeth</p> <p>4. Bydd llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ateb Cymraeg.</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.</p>
<p>5. Wrth gychwyn gohebiaeth yng Nghymru, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg at aelodau'r cyhoedd y gwyddom fod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg.</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.</p>
<p>6. Bydd cylchlythyrau a gyhoeddir i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.</p>
<p>Galwadau Ffôn</p> <p>7. Ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog.</p>	<p>Gweithredir hyn cyn gynted ag y mabwysiedir y polisi.</p>
<p>8. Trosglwyddo galwadau gan gleientiaid sy'n dymuno sgwrsio yn Gymraeg i aelod o staff sy'n siarad</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau</p>

Camau Gweithredu	Amserlen
Cymraeg.	
9. Os nad oes aelod o staff yn siarad Cymraeg ar gael byddwn yn rhoi dewis i alwr sy'n siarad Cymraeg i'w ffonio'n ôl, neu i barhau â'r alwad yn Saesneg, neu i ysgrifennu atom.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau
Cyfarfodydd Cyhoeddus 10. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd a drefnir gennym yng Nghymru i siarad Cymraeg neu Saesneg.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.
11. Bydd hysbysiadau gwahoddiad yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau o'r fath yn ddwyieithog	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau
12. Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd pan y'n hysbysir ymlaen llaw fod aelodau o'r cyhoedd yn dymuno siarad yn Gymraeg	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau
Galwyr personol 13. Caiff pobl sy'n galw yn ein swyddfa yng Nghaerdydd ofyn am weld aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau
14. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael caiff y sawl sy'n galw ddewis parhau â'r sgwrs yn Saesneg neu drefnu apwyntiad i drafod y mater gydag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu gael cyfieithydd yn bresennol.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.
15. Ar dderbyn hysbysiad fod aelod o'r cyhoedd yn dymuno cyflwyno apêl yn Gymraeg byddwn yn darparu pwyllgor apêl dwyieithog neu gyfieithydd.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau

Camau Gweithredu	Amserlen
<p>Hunaniaeth Gorfforaethol</p> <p>16. Byddwn yn defnyddio fersiynau Cymraeg a Saesneg ein logo ar bob dogfen ddwyieithog.</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.</p>
<p>17. Bydd ein swyddfa yng Nghaerdydd yn defnyddio deunydd papur dwyieithog wrth ddelio gyda'r cyhoedd yng Nghymru.</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.</p>
<p>18. Mae arwyddion cyhoeddus yr ydym yn gyfrifol amdanynt yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a'i ffiniau ac i'w dangos yn ein digwyddiadau a chynadleddau yng Nghymru yn ddwyieithog</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau</p>
<p>Cyhoeddiadau</p> <p>19. Caiff yr holl ddeunyddiau a gyhoeddir a anelir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru eu cynhyrchu yn un ddogfen os nad yw maint a chymhlethdod y ddogfen yn golygu fod angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau ar gyfer dogfennau yn tarddu yng Nghymru. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau fod yr holl ddeunyddiau eraill a gyhoeddir yn ateb y gofyniad hwn. O fewn 6 mis o fabwysiadu'r cynllun byddwn yn adolygu'r holl gyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd ac yn paratoi cynllun gweithredu.</p>
<p>Gwefannau Rhyngrwyd</p> <p>20. Bydd gwefan Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.</p>
<p>21. Gwefannau eraill y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol – bydd tudalennau Cymru ar gael yn y ddwy iaith. Bydd tudalennau eraill a fwriadwyd ar gyfer y cyhoedd ar gael yn ddwyieithog.</p>	<p>Tudalennau Cymru – Gweithredwyd eisoes ac yn parhau</p> <p>Tudalennau Eraill - O fewn 6 mis o fabwysiadu'r cynllun byddwn yn adolygu'r tudalennau gwefan ar gyfer y cyhoedd ac yn paratoi cynllun gweithredu.</p>
<p>Hysbysiadau i'r Wasg, Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd</p> <p>22. Cynhyrchu hysbysiadau i'r wasg yn ddwyieithog ar gyfer y wasg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru lle mae'r deunydd pwnc o ddiddordeb neilltuol i'r cyhoedd</p>	<p>Gweithredwyd eisoes ac yn parhau</p>

Camau Gweithredu	Amserlen
yng Nghymru.	
23. Cynhyrchu hysbysebion dwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg gyda chylchrediad lleol yng Nghymru.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau
24. Cynhyrchu hysbysebion Cymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau
25. Cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau
25. Arddangosiadau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.
<p>Gwasanaethau a gyflenwir ar ran yr LSC gan bartion eraill</p> <p>26. Bydd unrhyw gytundeb gyda chyrrff cyhoeddus arall i gyflwyno gwasanaeth i'r cyhoedd ar y cyd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r Cynllun Iaith Gymraeg</p>	O fewn 6 mis o fabwysiadu'r cynllun byddwn yn adolygu unrhyw gytundebau gyda chyrrff cyhoeddus eraill a pharatoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos sut y bwriadwn weithredu'r gofyniad hwn yn ystod oes y cynllun.
<p>Recriwtio a strategaeth staffio</p> <p>27. Swyddfa Caerdydd i gyflogi nifer ddigonol o staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr yn Gymraeg.</p>	Gweithredu'n barhaol yn dilyn mabwysiadu'r polisi.
28. Mabwysiadu strategaeth sgiliau ieithyddol a fydd yn dynodi a chadw dan adolygiad lle'r ydym angen sgiliau dwyieithog, lle mae gan staff sgiliau o'r fath eisoes a lle mae angen i ni sicrhau fod sgiliau o'r fath yn cael eu datblygu fel y cwyd cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth addas.	Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynllun hwn byddwn yn dechrau datblygu strategaeth sgiliau ieithyddol. Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu o fewn 6 mis o fabwysiadu'r cynllun.
29. Annog staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg a, lle mae hyn yn ateb angen busnes a ddynodwyd, byddwn yn talu am gost yr hyfforddiant.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.

Camau Gweithredu	Amserlen
30. Bydd hysbysebion recriwtio ar gyfer staff ac aelodau Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithol mewn papurau newydd seiliedig yng Nghymru yn ddwyieithog. Dilynir yr ymrwymiad hwn hyd yn oed lle nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ffactor hanfodol yn y swydd i gael ei llenwi. Bydd hysbysebion ym mhrif bapurau'r Deyrnas Gyfunol yn Saesneg fel arfer.	Gweithredwyd eisoes ac yn parhau.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost, post neu ffacs eryn 1 Tachwedd 2005 at:

Shone Hughes
Rheolwr Cyfathrebu
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Tŷ Marland
Sgwâr Canolog
CAERDYDD CF10 4DX

Ffacs: 029 2064 7171, e-bost: shone.hughes@legalservices.gov.uk

Gofynnir i chi nodi y gall ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu cyhoeddi. Os dymunwch gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, gofynnir i chi nodi hynny. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn gynnar yn 2006. Medrir cael copïau ychwanegol o'r papur ymgynghori hwn drwy gysylltu â Shone Hughes yn y cyfeiriad uchod, neu ar wefan y Comisiwn Gwsanaethau Cyfreithiol:

http://www.legalservices.gov.uk/civil/regions/cardiff_information.asp